OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2004 Rhif 1606 (Cy.165)

# AMAETHYDDIAETH, CYMRU

## Cynllun Grantiau Gwastraff Fferm (Parthau Perygl Nitradau) (Cymru) 2004

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'i wneud* | - - | *23 Mehefin 2004* |
| *Yn dod i rym* | - - | *30 Mehefin 2004* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, wrth weithredu mewn perthynas â Chymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 29 o Ddeddf Amaethyddiaeth 1970(**1**), yn gwneud y Cynllun canlynol —

### Enwi, cymhwyso a chychwyn

**1.** Enw'r Cynllun hwn yw Cynllun Grantiau Gwastraff Fferm (Parthau Perygl Nitradau) (Cymru) 2004, bydd yn gymwys yng Nghymru a daw i rym ar 30 Mehefin 2004.

### Dehongli

**2.** Yn y Cynllun hwn —

ystyr "busnes amaethyddol" ("*agricultural business*") yw busnes amaethyddol sy'n cael ei redeg yn rhannol o leiaf ar dir sydd wedi'i leoli mewn parth perygl nitradau;

mae i "slyri" yr un ystyr ag sydd i "*slurry*" yn rheoliad 2 o Reoliadau Rheoli Llygredd (Silwair, Slyri ac Olew Tanwydd Amaethyddol) 1991(**2**);

ystyr "parth perygl nitradau" ("*nitrate vulnerable zone*") yw unrhyw ardal a ddynodwyd yn barth perygl nitradau gan baragraff 3B o Reoliadau Diogelu Rhag Llygredd Nitradau (Lloegr a Chymru) 1996(**3**).

### Talu'r grantiau a swm y grantiau

**3.**—(1) Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau canlynol y Cynllun hwn, caiff y Cynulliad Cenedlaethol roi i unrhyw berson un neu fwy o grantiau i gynrychioli 40 y cant o'r gwariant a dynnir

(**1**) 1970 p.40. *Gweler* adran 28 ar gyfer y diffiniad o "the appropriate authority". O dan Orchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymru) 1999, O.S. 1999/672, erthygl 2(a) ac Atodlen 1, trosglwyddwyd swyddogaethau o Ysgrifennydd Gwladol Cymru o dan adran 29 o'r Ddeddf Amaethyddol, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

(**2**) O.S. 1991/324, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1991/324.

(**3**) O.S. 1996/888.

gan y person hwnnw at ddibenion rhedeg busnes amaethyddol neu mewn cysylltiad â'i redeg, sef gwariant sydd wedi'i dynnu ar ôl 29 Mehefin 2004 ond cyn 31 Hydref 2005 ac —

(a) sy'n wariant mewn perthynas â'r canlynol —

(i) darparu, amnewid neu wella —

(aa) cyfleusterau (gan gynnwys ffensys diogelwch) ar gyfer trafod a storio tail, slyri ac elifiant silwair;

(bb) cyfleusterau gwaredu sefydlog ar gyfer slyri ac elifiant silwair, neu

(cc) cyfleusterau (heblaw toeon) ar gyfer gwahanu dŵr glân a dŵ r brwnt, os yw'r cyfleusterau hynny'n lleihau'r angen i storio slyri; neu

(ii) unrhyw waith, cyfleuster neu drafodyn (gan gynnwys gwaith cadwraeth neu waith hwyluso) o ganlyniad i unrhyw fater y gall grant gael ei dalu mewn perthynas ag ef o dan ddarpariaethau blaenorol y paragraff hwn;

(b) y mae'n ymddangos i'r Cynulliad Cenedlaethol ei fod o natur cyfalaf neu ei fod wedi'i dynnu mewn cysylltiad â gwariant o natur cyfalaf;

(c) sydd wedi'i gymeradwyo gan y Cynulliad Cenedlaethol at ddibenion grant o dan y Cynllun hwn; ac

(d) nad yw'n fwy na chyfanswm o £85,000.

(2) Os yw'n ymddangos i Gynulliad Cenedlaethol Cymru bod gwariant y gwneir cais am grant mewn perthynas ag ef o dan is-baragraff (1) i'w dynnu yn rhannol at ddibenion rhedeg busnes amaethyddol neu mewn cysylltiad â'i redeg ac yn rhannol at ddibenion eraill, caiff y Cynulliad Cenedlaethol drin cymaint o'r gwariant hwnnw ag y mae'n ymddangos i'r Cynulliad Cenedlaethol y gellir ei gyfeirio at redeg y busnes amaethyddol hwnnw fel pe bai wedi'i dynnu at ddibenion rhedeg y busnes amaethyddol neu mewn cysylltiad â'i redeg.

### Terfynau ariannol

**4.**—(1) Os bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan ystyried cyfanswm nifer y ceisiadau am grantiau a gymeradwywyd neu a dderbyniwyd eisoes, ar unrhyw adeg o'r farn nad yw'r adnoddau ariannol sydd ar gael i dalu grantiau o dan y Cynllun hwn yn ystod unrhyw gyfnod yn ddigonol i fodloni unrhyw daliad yn ystod y cyfnod a fyddai'n ganlyniad cymeradwyo unrhyw gais pellach, caiff, mewn perthynas ag unrhyw gais a ddaeth i law ar ddyddiad ei benderfyniad ond na chafodd ei dderbyn hyn yn hyn, neu unrhyw gais a all ddod i law yn ystod y cyfnod perthnasol —

(a) atal ystyriaeth bellach ar unrhyw gais o'r fath tan yr amser y caiff bennu wedyn; neu

(b) gwrthod unrhyw gais o'r fath heb ystyriaeth bellach.

(2) Rhaid cyhoeddi hysbysiad —

(a) o benderfyniad —

(i) i atal ystyriaeth o unrhyw gais o dan is-baragraff (1)(a), neu

(ii) i wrthod unrhyw gais heb ystyriaeth bellach o dan is-baragraff (1)(b); neu

(b) o derfynu'r cyfnod perthnasol, yn y London Gazette.

(3) Yn is-baragraffau (1) a (2), ystyr "y cyfnod perthnasol" yw'r cyfnod sy'n dechrau drannoeth ar ôl y dyddiad penderfyniad Cynulliad Cenedlaethol Cymru y cyfeirir ato yn is-baragraff (1), neu unrhyw ddyddiad wedyn a bennir ganddo mewn hysbysiad o dan is-baragraff (2)(a), ac sy'n diweddu ar y dyddiad y caiff bennu mewn hysbysiad o dan is-baragraff (2)(b).

**Cyfyngiadau ar dalu grantiau**

**5.** Rhaid i Gynulliad Cenedlaethol Cymru beidio â thalu grant o dan is-baragraff (1) o baragraff 3 —

(a) mewn perthynas ag unrhyw fusnes amaethyddol sy'n cael ei redeg yn rhannol o leiaf ar dir sydd wedi'i leoli mewn parth perygl nitradau;

(b) onid yw wedi'i fodloni y bydd y gwariant y mae'r grant i'w thalu tuag ato yn golygu lles amgylcheddol a fydd yn cronni i'r parth perygl nitradau o dan sylw;

(c) onid yw gofynion Erthygl 5 o Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 1257/1999(**4**) wedi'u bodloni;

(d) os yw amcan y gwariant, y gwneir y cais am grant mewn perthynas ag ef, yn gynnydd mewn cynhyrchiant na ellir dod o hyd i allfeydd marchnata cyffredin ar ei gyfer; neu

(e) pe byddai'r cyfan neu ran o grant o'r fath yn dyblygu cymorth a ddarperir neu sydd i'w ddarparu o arian gan—

(i) y Gymuned Ewropeaidd;

(ii) y Senedd; neu

(iii) corff sy'n arfer swyddogaethau cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig.

**Cais am grant**

**6.**—(1) Rhaid i unrhyw gais am grant o dan y Cynllun hwn gael ei wneud ar y ffurf, yn y modd ac erbyn y dyddiad y gall Cynulliad Cenedlaethol Cymru eu pennu, a rhaid i'r ceisydd o dan sylw roi'r holl fanylion a'r holl wybodaeth ynghylch y cais y gall y Cynulliad Cenedlaethol ofyn yn rhesymol amdanynt, gan gynnwys, pan bennir hynny, y dogfennau a'r cofnodion perthnasol.

(2) Rhaid i Gynulliad Cenedlaethol Cymru roi gwybod yn ysgrifenedig i geisydd a yw'r cais yn gymwys neu beidio, ac os nad yw'n gymwys, rhaid iddo roi'r rhesymau.

**Dirymu a darpariaethau trosiannol**

**7.**—(1) Dirymir Cynllun Grantiau Gwastraff Fferm (Parthau Perygl Nitradau) (Cymru) 2001(**5**) (a ddisodlir gan yr offeryn hwn).

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**6**).

*D. Elis-Thomas*
23 Mehefin 2004 Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**4**) OJ Rhif L160, 26.6.1999, t.80.
(**5**) O.S. 2001/3709.
(**6**) 1998 p.38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Cynllun)*

Mae'r Cynllun hwn, sy'n gymwys i Gymru yn unig, yn cydymffurfio â Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1257/1999 ynghylch cymorth ar gyfer datblygu gwledig o Gronfa Cyfarwyddo a Gwarantu Amaethyddiaeth Ewrop ac yn benodol Erthyglau 4 i 7 sy'n ymdrin â buddsoddi mewn daliadau amaethyddol.

Mae'n gwneud darpariaeth ar gyfer rhoi grantiau mewn perthynas â busnesau amaethyddol sydd wedi'u lleoli mewn parthau perygl nitradau, fel y'u diffinnir gan baragraff 4 o'r Atodlen i Reoliadau Diogelu Dŵ r rhag Llygredd Nitradau Amaethyddol (Diwygio) (Cymru) 2002. Mae'r darpariaethau yn y Rheoliad hwn yn debyg i'r rhai a gynhwyswyd yn y Cynllun Grantiau Gwastraff Fferm (Parthau Perygl Nitradau) (Lloegr a Chymru) 1996, ac eithrio bod y meini prawf ar gyfer cymhwyster busnesau amaethyddol wedi newid fel mai'r unig fusnesau amaethyddol sydd bellach yn gymwys ar gyfer grant yw'r rhai a leolir yn y Parthau Perygl Nitradau a ddynodir gan Reoliadau Diogelu Dŵr rhag Llygredd Nitradau Amaethyddol (Diwygio) (Cymru) 2002.

Mae'r grant ar gael yn ôl cyfradd o 40% tuag at wariant (hyd at uchafswm o £85,000) a dynnir gan y busnes amaethyddol rhwng y dyddiad y daw'r Cynllun i rym ar 30 Mehefin 2004 a 31 Hydref 2005 mewn perthynas â chyfleusterau ar gyfer trafod, storio a gwaredu gwastraffoedd fferm penodol a gwahanu dŵ r glân a dŵ r brwnt (paragraff 3).

Gwneir darpariaeth gan baragraff 4 o'r Cynllun ar gyfer ystyried ceisiadau yn ystod cyfnod sydd i'w hatal neu eu gwrthod os nad oes adnoddau ariannol digonol ar gyfer talu grantiau o dan y Cynllun.

Gosodir nifer o gyfyngiadau ar dalu grantiau o dan y Cynllun (paragraff 5).

Penderfynir ar y weithdrefn ar gyfer gwneud cais am grant gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru (paragraff 6).

Dirymir Cynllun Grantiau Gwastraff Fferm (Parthau Perygl Nitradau) (Cymru) 2001.

Mae Arfarniad Rheoliadol wedi'i baratoi ar gyfer y Gorchymyn hwn ac wedi'i roi yn llyfrgell Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae copïau ar gael oddi wrth yr Is-adran Datblygu Bwyd a Ffermio, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.